Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 27 Chwefror 2017 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Geraint Woolford (Maer), Cynghorydd James Bryan (Dirprwy Faer).
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Bob Costain, June Derry, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

185. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer y Sarjant Jonny Hill i'r cyfarfod. Dosbarthodd y ffigurau troseddau ar gyfer y cyfnod 24.10.16 – 23.02.17, gyda ffigurau cymharol am yr un cyfnod pedwar mis y flwyddyn flaenorol. Darparodd ddiweddariad ar y difrod a achoswyd i deganau wedi eu cadw mewn sied storio yn Ysgol Borthyn. Holodd yr aelodau am gosbau gor-yrru am fynd dros y terfyn cyflymder ar y Ffordd Gyswllt Ogleddol a lleoliad y cerbyd Gan Bwyll, a'r problemau gyda gyrru gwyllt ym maes parcio Heol y Parc. Aeth y Sarjant Hill ymlaen i roi trosolwg o'r broses cyfiawnder adferol, lle mae'r heddlu yn trefnu man diogel i'r dioddefwr a'r tramgwyddwr gyfarfod, lle mae'r dioddefwr yn cael esbonio effaith y drosedd arnynt a'r tramgwyddwr yn ymddiheuro. Dywedodd bod 85% o'r rhai sydd wedi defnyddio'r broses yn hapus gyda'r canlyniadau, a bod y tramgwyddwyr 27% yn llai tebygol o droseddu eto.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad.*

186. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Elisabeth Culshaw a Ken Hawkins.

187. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne fudd personol ac ariannol yn eitem 10 fel Cadeirydd Menter Iaith Sir Ddinbych, a diddordeb personol yn eitem 16 gan ei fod wedi codi'r arian i brynu'r diffibriliwr. Datganodd y Cynghorydd Geraint Woolford fudd yn eitem 10 gan fod Menter Iaith Sir Ddinbych wedi cynnig cymorth ariannol tuag at gyngerdd elusennol y Maer.

188. ADRODDIAD Y MAER

Cyn cyflwyno ei adroddiad gofynnodd y Maer i'r aelodau sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch at y diweddar Mrs Dwynwen Hawkins, Maeres Rhuthun deirgwaith. Yna darllenodd y Maer lythyr o ddiolch gan Lesley Powell, Prif Weithredwr CAB Sir Ddinbych am y cyfraniad ariannol i swyddfa CAB Rhuthun, ac yna adroddodd am yr ymweliadau isod ers y cyfarfod blaenorol.

27.02 Cyfarfod ag Ann Jones AC ynghylch arwyddion twristiaeth brown
02.02 Cyfarfod â chwmni Land Ecology
05.02 Gwasanaeth Sul Dinesig Maer Rhuddlan
09.02 Dathlu pen-blwydd Cymdeithas Gymraeg Rhuthun yn 90 oed
13.02 Cyfarfod gyda Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych
16.02 Casgliad elusen Canser Macmillan yn Tesco
Cyfarfod gyda Tammy Jones, Prif Hyfforddwr, Clwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych
17.02 Gwasanaeth angladd Mrs Dwynwen Hawkins
21.02 Cyflwyno tystysgrifau cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol i wirfoddolwyr CAB Rhuthun
23.02 Perfformiad pantomeim Rhuthun
27.02 Beirniad cystadleuaeth addurno ffenestri Gŵyl Dewi Dinbych, a drefnwyd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych

189. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan Pwyllgor Rheoli Awelon a chyfarfod cyflwyno diweddariad, cyfarfod

	Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.
Cyng. Stephen Beach	Taith craffu ar yr ystad, cyfarfod Gwarchod Cymdogaeth Gogledd Cymru, Fforwm dros 50, gwasanaeth angladd Mrs Hawkins a chynhyrchiad Dragon Tales.
Cyng. Bob Costain	Gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, gwasanaeth angladd Mrs Hawkins a chyfarfod Cymdeithas Hanes Rhuthun.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod i ystyried gwahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020, dathlu pen-blwydd Cymdeithas Gymraeg Rhuthun yn 90 oed, Fforwm dros 50, cyfarfod is-bwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Borthyn, gwasanaeth angladd Mrs Hawkins a gwerthu cacennau cri a bara brith i godi arian i elusen ar ddydd Gŵyl Dewi.
Cyng. Ian Lewney	Gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.
Cyng. Anne Roberts	Noson Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, cyfarfod y Gymdeithas Ddinesig i drefnu Drysau Agored, Fforwm dros 50 a gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.
Cyng. Heather Williams	Gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.
Cyng. Emrys Wynne	Cyflwyno deiseb i fanc Nat West, codi sbwriel ger Glasdir a gwasanaeth angladd Mrs Hawkins.

190. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2017 yn gywir.*

191. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

192. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

193. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

194. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN FENTER IAITH SIR DDINBYCH
Gadawodd y Maer a'r Cynghorydd Emrys Wynne y siambr yn ystod y drafodaeth hon, a chadeiriwyd gan y Dirprwy Faer. Ystyriodd yr aelodau'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych i gefnogi cais am gymorth ariannol gwerth £945.00. Teimlai'r aelodau y dylai Menter Iaith fod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn holl ysgolion Rhuthun ac nad oedd y ffigurau a gyflwynwyd yn ddigon cadarn. Cynigiwyd ac eiliwyd dyfarnu cymorth ariannol gwerth £500.00 fel yn y blynyddoedd blaenorol.
PENDERFYNWYD*: rhoi cymorth ariannol gwerth £500.00 i Fenter Iaith Sir Ddinbych.*

195. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN GYLCH TI A FI RHUTHUN
Ystyriodd yr aelodau gais am gymorth ariannol gwerth £500.00 gan Gylch Ti a Fi Rhuthun. Gofynnodd yr aelodau am fanylion cost y teganau addysgol.
PENDERFYNWYD*: gofyn am ragor o wybodaeth gan Gylch Ti a Fi Rhuthun.*

196. GRŴP TWRISTIAETH BYSIAU MOETHUS SIR DDINBYCH
Bu'r aelodau'n ystyried gwahoddiad i gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun gymryd rhan mewn taith gynefino i gyrchfan sy'n croesawu bysiau, Betws y Coed, ar 28 Chwefror.
PENDERFYNWYD*: bod y Cynghorydd Heather Williams yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun ar y daith gynefino.*

197. CASTELL RHUTHUN – GWAITH SEFYDLOGI BRYS GAN CADW

Ystyriodd yr aelodau lythyr oddi wrth Will Davies, Arolygwr Henebion CADW, Gogledd Ddwyrain Cymru a gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun yn gofyn am ddefnyddio'r cyfraniad o £4,200.00 gan Gyngor Tref Rhuthun tuag at elfennau cofnodi archeolegol a chofnod ffotogrametrig y prosiect, nawr bod Cadw yn cymryd y cam anarferol o ymyrryd yn uniongyrchol i gynnal rhaglen o waith sefydlogi brys ar waliau heneb Castell Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: cytuno i'r cais uchod.*

198. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2017-18

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried bod Cyngor Tref Rhuthun yn ymaelodi ag Un Llais Cymru ar gyfer 2017-18 am ffi yn cynnig disgownt 50%, sef £393.50.
PENDERFYNWYD*: gwrthod y cais i ymaelodi ag Un Llais Cymru.*

199. ANFONEB AM GYFRANIAD I GYNGOR SIR DDINBYCH TUAG AT GYNNAL CANOLFAN GREFFT RHUTHUN

Gofynnodd yr aelodau am ragor o eglurhad ynghylch yr anfoneb uchod.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Jamie Groves, Pennaeth y Gwasanaeth, i ddarparu rhagor o wybodaeth.*

200. DIFFIBRILIWR AT DDEFNYDD Y GYMUNED

Darparodd y Cynghorydd Emrys Wynne fanylion am gost Diffibriliwr Mynediad Cyhoeddus i'w osod ar wal safle Ruthin Décor yn Stryd y Ffynnon. Diffibriliwr = £800 + TAW o £160, cabinet = £335 a gofynnodd a fyddai'n Cyngor Tref yn fodlon prynu'r offer a'i gynnwys dan bolisi yswiriant y Cyngor Tref. Roedd y Clerc wedi cysylltu â chwmni Zurich Insurance i wneud ymholiadau a chadarnhawyd y gellid ychwanegu hyn heb unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor. Roedd y contractwr trydanol hefyd wedi cynnig gosod y diffibriliwr am ddim.
PENDERFYNWYD*: bod y Cyngor Tref yn prynu'r diffibriliwr a'r cabinet cysylltiedig.*

201. DATGANIAD CYDYMFFURFIO – Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU

Gofynnodd y Clerc am gymeradwyaeth y Cyngor i lenwi'r ffurflen datganiad cydymffurfio, ar sail yr wybodaeth yn y rhestr wirio a gyflwynwyd.
PENDERFYNWYD*: cytuno i lenwi ffurflen datganiad cydymffurfio Cyngor Tref Rhuthun.*

202. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Ystyriodd yr aelodau yr Asesiad Risg Blynyddol a
PHENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

203. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Ystyriodd yr aelodau y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a
PHENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.*

204. GOHEBIAETH

i. Llythyr yn nodi lansio ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad' oddi wrth Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
ii. Neges e-bost yn gwahodd cydweithwyr i ddigwyddiadau rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd ynghylch y 'Fframwaith Cyflenwi'
iii. Llythyr ynghylch digwyddiad Taith o gwmpas Cymru i ddathlu 50fed blwyddyn Aren Cymru
iv. Penodi Comisiynwyr i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru
v. Penodi Cadeiryddion i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
vi. Datganiad newyddion gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru am y Tîm Ockenden a'r corf gwarchod yn ymuno i adolygu gofal iechyd meddwl pobl hŷn.
vii. Cyfarfod Blynyddol Apêl Canser Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth.*

205. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2017.*

206. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon isod.*

986	Clwb y Dyffryn	Cinio Sul Dinesig y Maer		£1,406.00
987	Zurich Municipal	Tâl yswiriant 2017-18		£4,438.44
988	TTS Group	Den plygu i'w ddefnyddio tu mewn / tu allan	*	£287.94
989	Cyngor Sir Ddinbych	Cyflenwi a gosod arwydd newydd ar yr A494	*	£300.00
990	Cynghorydd Heather Williams	Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ym Mae Colwyn		£24.30
991	Cyngor Sir Ddinbych	Gwagu'r biniau baw cŵn yn fisol	*	£117.00
992	Gwasanaethau Coed Cymru	Cyflenwi, gosod a thynnu'r coed Nadolig ymaith	*	£1,434.00
993	Fineline	Ffeil blwch	*	£4.40
994	Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio Cyfrifon 2015/16		£230.10
D.D.	BT Business	Gwasanaeth band eang	*	£75.72
995	Clwb Rotari Rhuthun	Cyfraniad tuag at y Diwrnod Hwyl a Rasys Mulod		£500.00
996	Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen 2017		£100.00
997	Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017		£200.00
998	Cyngor Sir Ddinbych	Casglu, gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig ymaith	*	£5,422.25
999	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
5000	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5001	Swyddfa Cyngor ar Bopeth Rhuthun	Cyfraniad i swyddfa CAB Rhuthun		£2,000.00
5002	Y Bedol	Hysbyseb Gwobrau Dinesydd Da		£20.00

207. CWYN YNGHYLCH ADEILADU'R YSGOL NEWYDD

Roedd y Cynghorydd Rosie Hughes-Moseley yn dymuno gwneud aelodau'n ymwybodol ei bod wedi derbyn cwyn gan breswyliwr yn byw ger safle ysgolion Glasdir bod dirgryniadau'r gwaith adeiladu yn cael effaith andwyol ar ei hanabledd.

PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

208. CYMORTH ARIANNOL I GYMDEITHAS CYMUNED LLANFWROG

Ystyriodd yr aelodau neges e-bost gan Gadeirydd Cymdeithas Gymuned Llanfwrog yn cadarnhau derbyn cyllid Arian i Bawb ac yn gofyn am ryddhau'r cymorth ariannol gwerth £5,000.00 tuag at osod lifft a grisiau allanol yn y Ganolfan.

PENDERFYNWYD*: rhyddhau'r cyfraniad ariannol cytunedig i Gymdeithas Cymuned Llanfwrog.*

209. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref yw nos Lun, 27 Mawrth 2017 am 7:00pm.*